Croeso i Ddosbarth Harbwr

Dewch i gael cip ar beth sy'n digwydd yn ein dosbarth tymor hyn:

Eleni, mae yna 20 o blant blwyddyn 5 yn ein dosbarth. Ein athro yw Mr Hughes ac ein cynorthwyydd yw Mrs Vale.

Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar ysgrifennu nifer o destunau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth BOB NOS. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd. Rhowch gymorth i'ch plentyn ymarfer eu sillafu trwy ddefnyddio SpellBlast ar Hwb.

Rhifedd

Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu tablau trwy ddefnyddio TT Rock stars neu J2blast ar HWB.

Thema

Ein thema y tymor hwn yw 'Prydain ac Ewrop'.

Bydd ein thema yn yn rhoi cyfle i'r disgyblion i ddysgu am amrywiaeth o bethau rhyfeddol yma ym Mhrydain ac Ewrop.

Ymarfer Corff

Bydd ymarfer corff ar ddydd Iau. Mae angen gwisgo dillad addas ar gyfer y diwrnod yma. Bydd angen trowsus ymarfer corff hir / siorts du, crys-t lliwiau tŷ ac esgidiau rhedeg.

Tasgau Dysgu Adref

Mi fydd tasgau dysgu adref yn cael eu gosod ar Ddydd Gwener a disgwylir i'r disgyblion eu cyflawni erbyn Dydd Mercher.